Hawdd ei Ddeall

# Adolygiad Buddsoddi Rhan 1

## Canllaw i gyrff



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad Buddsoddi 2023 Canllaw i Gyrff - Rhan 1**'.

**Rhagfyr 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 23**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** arts.wales/cy

**Ffôn:** 03301 242733

**E-bost:** investmentreview@arts.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Tudalen

Sut fyddwn ni yn cyllido cyrff........................................................4

Ein 6 egwyddor..........................................................................8

1.Creadigrwydd..........................................................................8

2. Ehangu ymgysylltiad..............................................................9

3. Yr iaith Gymraeg...................................................................10

4. Cyfiawnder hinsawdd............................................................11

5. Meithrin Talent.......................................................................13

6. Trawsnewid............................................................................13

Ffactorau cydbwyso...................................................................15

Ffactorau cydbwyso Gwneud pethau yn fwy hawdd i chi......20

Beth fydd yn digwydd nesaf.....................................................22

Geiriau Anodd...........................................................................23

# Sut fyddwn ni yn cyllido cyrff



Rydyn ni eisiau gwneud y ffordd rydyn ni yn cyllido'r celfyddydau yn fwy teg.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ni sydd yn gyfrifol am roi arian i gyrff celfyddydau.



Mae'r arian yma yn dod oddi wrth:

- Llywodraeth Cymru
- A'r Loteri Cenedlaethol.



Rydyn ni'n rhoi arian i gyrff **ac** i unigolion. Ond mae'r ddogfen yma am gyrff yn unig.




Rydyn ni'n cyllido prif gostau cyrff drwy broses o'r enw **Adolygiad Buddsoddi**.




Fe fyddwn ni yn gwneud yr adolygiad buddsoddi nesaf yn **Ionawr 2023**.





Ac fe fydd yr arian yn cael ei roi yn **Ebrill 2024**.




Ond fe fyddwn ni yn newid y ffordd rydyn ni'n gwneud yr **Adolygiad Buddsoddi nesa**f.





Fe fyddwn ni yn edrych ar roi arian i gyrff am nifer o flynyddoedd.




Fe fyddwn ni yn rhoi arian i gyrff y mae eu nodau yr un fath â'n rhai ni.




Mae’r ddogfen yma am sut rydyn ni yn newid yr **Adolygiad Buddsoddi** i’w wneud yn fwy teg.




Mae llyfryn arall i fynd gyda hwn o’r enw **Adolygiad Buddsoddi – Rhan 2: gwneud eich cais**. Darllenwch ef ar ôl y llyfryn hwn.


**Y prif newidiadau ydy:**




- Fe fydd cyllid am 3 blynedd i ddechrau. Fe fyddwn ni yn cysylltu ym mlwyddyn 2 ac efallai yn rhoi arian am gyfnod hirach.
- Fe fydd cvyfle i gyrff newydd gael cyllid parhaus am nifer o flynyddoedd.
- Fe fyddwn ni yn edrych ar beth y mae’r corff yn gallu ei gyflawni. Ac yn edrych beth maen nhw wedi ei gyflawni yn ddiweddar.
- Fe fydd angen i gyrff gyhoeddi eu nodau a beth maen nhw wedi ei gyflawni ddwywaith y flwyddyn.
- Bydd sefydliadau’n gallu gwneud cais am gymorth ar gyfer costau eu sefydliad. Neu am ryw ran o’u gwaith fel costau prosiect.



Rydyn ni eisiau gweithio **gyda** chyrff. Fel partneriaid cyfartal.



Mae'r Adolygiad Buddsoddi yma wedi meddwl am y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydyn ni eisiau gwneud penderfyniadau sydd yn dda i'r dyfodol.



Rydyn ni eisiau gweithio yn agos gyda Llywodraeth Cymru i'w helpu nhw i wneud yn siŵr bod arian yn helpu pobl yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau i bawb fod yn rhan o'r celfyddydau.

# Ein 6 egwyddor

Fe fydd ein Adolygiad Buddsoddi wedi ei seilio ar **6 egwyddor**.




Mae'r rhain fel **gwerthoedd**. Ac rydyn ni eisiau i gyrff ddangos inni sut maen nhw'n ateb yr egwyddorion yma.

## 1. Creadigrwydd



Rydyn ni eisiau gweld llawer o wahanol fathau o greadigrwydd yn y gwaith mae cyrff yn ei wneud.



Ac iddyn nhw ddangos eu bod nhw wedi meddwl am eu cynulleidfaoedd.

Rydyn ni eisiau gweld bod cyrff yn cymryd risgiau. Ond eu bod nhw hefyd yn:



**Cynhwysol**. Mae hyn yn meddwl bod llawer o bobl yn gallu cymryd rhan. Does dim gwahaniaeth beth ydy eu cefndir. Na beth ydy eu anghenion.



**Moesegol**. Mae hyn yn meddwl bod y gwaith maen nhw yn ei wneud yn deg ac yn garedig. Er enghraifft i bobl eraill ac i'r amgylchedd.




**Perthnasol**. Mae hyn yn meddwl ei fod yn bwysig ac yn briodol i beth sydd yn digwydd yn y byd ac ym mywydau pobl.

## 2. Ehangu ymgysylltiad



Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod cyrff yn gweithio gyda phobl sydd yn aml yn cael eu gadael allan o'r celfyddydau.



Er enghraifft, pobl o gefndiroedd **amrywiol**.

Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, mae ganddyn nhw anghenion gwahanol ac maen nhw'n gwneud dewisiadau gwahanol am sut i fyw eu bywydau.



Ac mae hefyd yn meddwl bod cyrff yn gwneud yn siŵr bod gan bobl a chymunedau lais yn y celfyddydau. Ac yn gallu cymryd rhan yn llawn.

## 3. Yr iaith Gymraeg



Fe ddylai pobl allu profi'r celfyddydau yn y Gymraeg.




Rydyn ni eisiau gweld cyrff yn gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. A **diwylliant** Cymraeg.



**Diwylliant** ydy'r syniadau, traddodiadau, credoau ac ymddygiad sydd yn cael eu rhannu gan grŵp o bobl. Mae'n meddwl pethau fel digwyddiadau celfyddydol, iaith fel yr Eisteddfod a hanes.

## 4. Cyfiawnder Hinsawdd



Rydyn ni'n mynd i ddefnyddio'r term **cyfiawnder hinsawdd** pan rydyn ni'n siarad am yr argyfyngau hinsawdd a natur y mae'r blaned yn eu wynebu.

**Cyfiawnder hinsawdd** ydy darganfod ffyrdd o ddelio gyda'r argyfwng hinsawdd sydd yn helpu i :

- Lleihau'r difrod rydyn ni yn ei wneud ac edrych ar ôl y blaned.
- Ac hefyd yn gwneud y byd yn lle mwy teg i bawb.



Mae hyn oherwydd bod problemau **hinsawdd** yn effeithio ar rai pobl a gwledydd yn llawer mwy annheg nag eraill.



Er enghraifft yn aml mae pobl o wledydd **mwy tlawd** yn cael eu heffeithio'n fwy gan newid **hinsawdd** na gwledydd **mwy cyfoethog**.




Rydyn ni eisiau gweld cyrff yn siarad am **gyfiawnder hinsawdd** a dangos pa mor bwysig ydy hynny.



Ac rydyn ni eisiau i gyrff edrych ar yr effeithiau maen **nhw** yn ei gael ar y blaned a **chyfiawnder hinsawdd**.

## 5. Metihrin Talent



Mae hyn yn meddwl ein bod ni eisiau i gyrff gefnogi **amrywiaeth**.



Rydyn ni eisiau gweld sut mae cyrff yn cefnogi pobl i ddatblygu eu talent a'u sgiliau.




Rydyn ni eisiau gweld y gwaith maen nhw yn ei wneud i gefnogi a datblygu pobl ifanc. A chymunedau.



Mae hyn yn meddwl gweithio gyda'n gilydd. A thrin pobl yn deg.

## 6. Trawsnewid



Mae hyn yn meddwl ein bod ni eisiau gweithio gyda chyrff sydd yn barod i weithio yn wahanol  i wneud pethau yn well.



Mae angen iddyn nhw fod yn gryf ac yn barod i newid.




Mae angen iddyn nhw fod yn **berthnasol**. Mae hyn yn meddwl bod eu gwaith yn bwysig ac yn dangos beth sydd yn digwydd i bobl ac yn y byd nawr.



Fe ddylen nhw fod yn barod i gymryd risgiau.



Rhaid i'r corff hefyd gael ei redeg yn dda.

# Ffactorau cydbwyso



Pan rydyn ni'n gwneud penderfyniadau am pwy i roi arian iddyn nhw, fe fyddwn i hefyd yn edrych ar anghenion Cymru.



Rydyn ni'n galw hyn yn **ffactorau cydbwyso**. Mae gennym ni **5 o ffactorau cydbwyso** i feddwl amdanyn nhw:

**1. Gwasanaethu Cymunedau**



Mae hyn yn meddwl y dylai ein harian gael ei ddefnyddio i gyrraedd cymunedau.



Er enghraifft, dydy rhai cymunedau tlawd a chymunedau gwledig ddim yn cael llawer o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau.

## 2. Amrediad eang o gelfyddydau a chyfleoedd



Rydyn ni eisiau gweld llawer o wahanol fathau o gelfyddydau yn cael eu creu a'u mwynhau.



Rydym am i sefydliadau weithio mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, defnyddio'r celfyddydau a meddwl am iechyd. Neu defnyddio'r celfyddydau i weithio gyda phobl ifanc.

## 3. Gwneud yn siŵr bod lleisiau yn cael eu clywed



Mae rhai grwpiau o bobl wedi cael llai o **fynediad** i arian celfyddydau yn y gorffennol.

Mae **mynediad** yn golygu bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio.



Rydyn ni eisiau i'r holl grwpiau o bobl gael **mynediad** teg i'r celfyddydau.



Fe fyddwn ni yn cefnogi cyrff sydd yn cael eu harwain gan ac sydd yn gweithio gyda grwpiau sydd wedi cael llai o gyfleoedd yn y gorffennol.



Er enghraifft, grwpiau anabledd. A grwpiau sydd yn dod o gymunedau mwy tlawd.

**4. Gwerth am arian**



Mae gennym ni gyfrifoldeb i bobl Cymru i wneud yn siŵr ein bod ni yn  rhoi'r arian i gyrff maen nhw eisiau.



A gwneud yn siŵr eu bod yn fforddiadwy ac o werth da.

**5. Maint cyrff**



Fe fyddwn ni yn rhoi crian i gyrff o bob maint. Yn gweithio ar wahanol raddfeydd.

# Gwneud pethau yn fwy hawdd i chi



Rydyn ni eisiau:

- Gwneud y broses **asesu** yn fwy syml.


> Mae **asesu** yn ffordd o ddarganfod a oes angen cymorth a chefnogaeth ar rywun.



- Cymryd ceisiadau am arian yn Gymraeg, Saesneg neu Iaith Arwyddo Prydeinig.




- Cefnogi pobl i ddarllen a deall y cais. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yma: cefnogaeth **mynediad**. https://arts.wales/cy



- Gadael i bobl wneud cais mewn ffyrdd eraill os ydyn nhw eisiau. Er enghraifft mewn ysgrifen neu drwy fideo a sain.



- Bod yn agored a chlir.




A gweithio yn y ffyrdd gorau. Mae gennym ni god ymarfer ar gyfer hyn: [arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cod-ymarfer-gorau](arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cod-ymarfer-gorau)




Mae **Cod Ymarfer** yn rhoi rheolau a chyngor am y gyfraith. Mae'n helpu awdurdodau lleol a phartneriaid i wneud yr hyn y mae'r gyfraith yn dweud wrthynt am ei wneud.



Fe fyddwn ni yn edrych rhagor ar ddarganfod pa wahaniaeth mae arian wedi ei wneud i gyrff.

# Cwestiynau am yr Adolygiad Buddsoddi

**Dyma rai cwestiynau cyffredin:**



1. **Pa arian mae corff yn gallu gwneud cais amdano drwy'r Adolygiad Buddsoddi?**

   Maen nhw'n gallu gwneud cais am gyllid craidd. Mae hyn yn meddwl prif gostau rhedeg y corff.


   Neu maen nhw'n gallu gwneud cais i gyllido gweithgaredd arbennig.




2. **Pa mor hir fydd yr arian yn para?**

   I ddechrau fe fydd am 3 blynedd.

   Efallai y byddwch yn gallu cael rhagor o arian. Fe fyddwn ni yn edrych i weld sut mae pethau yn mynd ym mlwyddyn 2 o'r cyllid a gwneud penderfyniad yr adeg hynny.




3. **Oes yna gyfleoedd eriall i gael arian gan y Cyngor Celfyddydau?**

   Oes. Fe fydd cyllid prosiect ar gael i unigolion a chyrff. Efallai bydd hyn yn ddewis gwell i rai. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.



**4. Am faint o arian rydyn ni'n gallu gwneud cais?**

Dydyn ni ddim wedi dweud faint.

Ond cofiwch bod llawer o alw am arian. Dydyn ni ddim yn gallu fforddio rhoi arian ar gyfer popeth.

Mae angen i chi feddwl am y prif bethau rydych chi eisiau eu cyflawni.



**5. Rydw i fel arfer yn gwneud cais am arian Loteri ar gyfer fy mhrosiect, ddylwn i wneud hyn rhag ofn?**

Ie.




**6. Os nad ydw i'n gwneud cais nawr, fyddai'n cael cyfle arall?**

Byddwch. Bob blwyddyn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**7. O lle mae'r arian yn dod?**

Llywodraeth Cymru a'r Loteri Cenedlaethol.

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# Pryd fydd pethau yn digwydd




Rydych chi'n gallu gwneud cais rhwng hanner dydd **9 Ionawr 2023** a hanner dydd **31 Mawrth 2023.**



Siaradwch gyda swyddog cyn **3 Mawrth 2023.**




Fe fyddwn yn rhoi gwybod i chi os ydych chi wedi cael arian cyn diwedd **Medi 2023.**




Fe fyddwn ni yn gwybod yn sicr faint o arian fyddwch chi yn ei gael erbyn diwedd **Rhagfyr 2023.**




Fe fydd cyllid yn dechrau o **1 Ebrill 2024.**

# Geiriau Anodd

## Amrywiol

Mae hyn yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath, Er enghraifft mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd. Mae ganddyn nhw anghenion gwahanol. Ac maen nhw'n gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau.

## Asesu

Mae asesu yn ffordd o ddarganfod a oes angen cymorth a chefnogaeth ar rywun.

## Cod Ymarfer

Mae Cod Ymarfer yn rhoi rheolau a chyngor am y gyfraith. Mae'n helpu awdurdodau lleol a phartneriaid i wneud yr hyn y mae'r gyfraith yn dweud wrthynt am ei wneud.

## Cyfiawnder hinsawdd

Mae hyn yn meddwl ffordd o ddarganfod dulliau i ddelio gyda'r argyfwng honsawdd sydd yn:

- Helpu i leihau'r niwed rydyn ni'n ei wneud ac edrych ar ôl ein planed
- A hefyd gwneud y byd yn lle mwy teg i bawb.

## Diwylliant

Mae diwylliant yn meddwl y syniadau, credoau, traddodiadau ac ymddygiad sydd yn cael eu rhannu gan grŵp o bobl. Mae'n meddwl pethau fel digwyddiadau celfyddydol, iaith fel yr Eisteddfod a hanes.

## Mynediad

Mae mynediad yn golygu bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio.